OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1339

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

RHAN 2

Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr awdurdodau lleol

Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella

6.—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gan y darparwr awdurdod lleol,

(b) rhieni unrhyw blentyn o'r fath, oni bai bod hyn yn amhriodol neu'n anghyson â llesiant y plentyn,

(c) rhieni maeth,

(d) personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol, ac

(e) unrhyw awdurdod ardal,

ar ansawdd y gwasanaeth.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i'r darparwr awdurdod lleol ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2).